## CYLCHLYTHYR 36 – HAF 2020

# CYFARFOD CYFFREDINOL
# Wedi gohirio

Dyddiedig Gorffennaf 4ydd,efallai bydd yn bosib ail-drefnu nes ymlaen. Byddwn yn paratoi'r adroddiad blynyddol ac ariannol I'w anfon at y Comisiwn Elusennau fel arfer a'r adroddiad cyllid/materion allweddol I aelodau.

### Cau'r hosteli – y diweddaraf

Mae'r hosteli ar gau ers Mawrth 23ain gyda'r sawl oedd wedi trefnu aros yn cael dewis ad-daliad (y rhan fwyaf ohonynt) neu ail-drefni'r dyddiad.

Yn ffodus iawn, cawsom grant o £10,000 am bob un hostel (£20,000) oddiwrth Gronfa'r Llywodraeth (DU/Cymru) I gynnal busnesau bach – cymorth sylweddol tuag at golled incwm dros gyfnod y cloi.

Ni allwn ddweud eto pryd byddwn yn ail agor na pha fath o waith paratoi bydd angen gwneud o flaenllaw. Ar hyn o bryd, mae Penwythnos Hyfforddi Wardeiniaid mis Hydref yn cymryd lle. Mae'r Llywodraethwyr yn cadw mewn cysylltiad trwy Zoom. Pan ddaw'r cyfle, bydd Rheolwyr yr Hosteli – Colin, Richard a Janet – yn talu ymweliad ar gyfer cynnal a chadw ac mae'r gwasanaethau diogelwch ee nwy/trydan yn parhau yn ystod y cyfnod cloi.

Fel pawb arall, rydym yn mawr obeithio cael ail agor cyn gynted a phosib – rhown wybod I chi am unrhyw ddatblygiad.

### Yr hosteli – y diweddaraf

### Ystafell I'r Llai Abl –Dolgoch

Mae bron pawb yn gwybod bod yr ystafell yma ar gael ond ei fod fel arfer yn cael ei alw'n' Ystafell y Warden'. Serch hynny, rydym am ddenu mwy o bobl Llai Abl ac wedi cysylltu a chwmniau perthnasol am gyhoeddusrwydd ond heb lwyddiant hyd yn hyn.

Os oes unrhyw wybodaeth gennych am y sector hwn, rhowch wybod I Marilyn. Gallwch wneud trefniadau trwy'r wefan.

## Tannau gwair ger Ty'n Cornel

Toc cyn y clo, roedd gwair ar dan dros rannau helaeth o'r ardal yn agos at yr hostel.  Tynnodd Bill Hine y lluniau dramatig hyn.



Achubwyd yr hostel ei hunan ond roedd olion llosg ger y ffynnon a darganfuwyd twll ym mhibell ddwr yr hostel.

Mae Adnoddau Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth yr Afonydd yn ymchwilio.

## Parhau a'ch cefnogaeth

Er bod eleni yn siomedig o ran dod ar ymweliad a'n hosteli godidog, mae gwaith yr Elenydd yn parhau.  Mae'n bwysig  bod eich aelodaeth yn parhau I'r gwaith yma fynd yn ei flaen. Fel arfer, chi sy'n rhoi syniadau newydd a chi sy'n gwirfoddoli felly, os gwelwch yn dda, cofiwch adnewyddu eich aelodaeth.

Rydym yn chwilio yn barhaol am fwy o bobl I ymwneud a'r gwaith gan bod y rhan fwyaf ohonom yn dal yn gweithredu ers sefydlu'r Ymddiriedolaeth 10 mlynedd yn ol ac yn heneiddio!
Mae angen rhywun, yn enwedig, gyda phrodiad o farchnata.  Pan fyddwn yn ail-agor bydd angen hysbysebu'n fwy eang.

Hefyd, mae Dave Matthews, ein Trysorydd  hynod o weithgar, yn chwilio am gymorth I gyflawni ei llu o ddyletswyddau.

Os gallwch helpu gyda'r uchod, neu mewn unrhyw ffordd arall, rhowch wybod I Marilyn.
Mae dyfodol Elenydd yn nwylo'r genhedlaeth